CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 10, 2015 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 13, 2015

4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 13, 2015

Eitem 4. Mae Mr Gethin Corps wedi datgysylltu'r toiledau.

5. Materion Ariannol

a. Bil (19/10/2015) am £43.20 oddi wrth Elfed ap Gomer am gostau teithio i Bontrhydfendigaid i gynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 2015.

b. Derbyniwyd (19/10/2015) siec am £175.00 oddi wrth Glyn Rees & Son, at daliad claddedigaeth y diweddar Lili Pugh Jones. Claddu gweddillion o'r amlosgfa.

c. Bil (18/10/2015) am £60.00 oddi wrth Paul Cook i agor bedd at gladdu gweddillion ar 14/10/2015.

ch. Derbyniwyd (22/10/2015) taliad am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i ail osod beddfaen ar y diweddar Lili Pugh Jones.

d. Derbyniwyd (22/10/2015) taliad am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i ail osod beddfaen ar y diweddar Joan Edwards.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/T328. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adeiladu estyniad ochr deulawr a garej arwahan. Heulfryn, Llanelltyd.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/10/2015) oddi wrth Y Groes Goch Brydeinig. Maent eisiau cymorth ariannol.

b. Llythyr (13/10/2015) oddi wrth Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn ymdrechu i wrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i gau eu hadrannau sy'n cefnogi twristiaeth a busnesau oherwydd niwed gwneith i economi'r sir.

c. Copi o 'Newyddlen - Dalgylch y Gader' oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd copi o'r newyddlen i'r aelodau.

ch. Llythyr (22/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau:

i. Datganoli Gwasanaethau (Saesneg) yn Llyfrgell Rudd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Tachwedd 10 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

ii. Cyllid Llywodraeth Leol (Saesneg) yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar ddydd Mercher, Tachwedd 18 Hydref 20 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

d. Llythyr (28.10.2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced, Dolgellau ar Tachwedd 25 2015 am 7.00yh. Bydd Swyddog o gwmni Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn bresennol yn rhoi cyflwyniad ar waith y cwmni.

Amgáu mae cofnodion cyfarfod y pwyllgor oedd ar 23/09/2015.

dd. Llythyr (Hydref 2015) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau gwybodaeth am lefydd mae pobl yn eu defnyddio i gysgu ar y strydoedd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

Yn gywir,
P.M. Edwards, Clerc